OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1804 (Cy.192)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2004

Wedi'u gwneud - -	*13 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Gorffennaf 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, a chan arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2004 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2004.

Diwygio Rheoliadau Bwyd (Pysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002

2. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Bwyd (Pysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**3**) yn lle'r diffiniad o "the Commission Decision" rhodder y diffiniad canlynol—

> ""the Commission Decision" means Commission Decision 2002/79/EC imposing special conditions on the import of peanuts and certain products derived from peanuts originating in or consigned from China(**4**)) as amended by Commission Decision 2002/233/EC(**5**), Commission Decision 2002/678/EC(**6**), Commission Decision 2003/550/EC(**7**) and Commission Decision 2004/429/EC amending Decisions 97/830/EC, 2000/49/EC, 2002/79/EC and 2002/80/EC as regards the points of entry through which the products concerned may only be imported into the Community (**8**);".

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2002/2295 (Cy.224), a ddiwygiwyd gan O.S. 2003/2299 (Cy.229).
(**4**) OJ Rhif L34, 5.2.2002, t.21.
(**5**) OJ Rhif L78, 21.3.2002, t.14.
(**6**) OJ Rhif L229, 27.8.2002, t.33.
(**7**) OJ Rhif L187, 26.7.2003, t.39.
(**8**) OJ Rhif L154, 30.4.2004, t.20.

Diwygio Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistasio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002

3. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistasio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) Rheoliadau 2002(**9**)) yn lle'r diffiniad o "the Commission Decision" rhodder y diffiniad canlynol —

> ""the Commission Decision" means Commission Decision 2002/80/EC imposing special conditions on the import of figs, hazelnuts and pistachios and certain products derived thereof originating in or consigned from Turkey(**10**) as amended by Commission Decision 2002/233/EC, Commission Decision 2002/679/EC(**11**)), Commission Decision 2003/552/EC(**12**) and Commission Decision 2004/429/EC amending Decisions 97/830/EC, 2000/49/EC, 2002/79/EC and 2002/80/EC as regards the points of entry through which the products concerned may only be imported into the Community (**13**);".

Diwygio Rheoliadau Bwyd (Cnau Brasil) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003

4. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Bwyd (Cnau Brasil) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003(**14**)) yn lle'r diffiniad o " Penderfyniad y Comisiwn" rhodder y diffiniad canlynol —

> "ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2003/493/EC sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio cnau Brasil sydd yn eu plisg ac sy'n tarddu o Brasil neu a draddodir oddi yno(**15**) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2004/428/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2003/493/EC o ran yr unig bwyntiau mynediad y caniateir mewnforio drwyddynt i'r Gymuned gnau Brasil sydd yn eu plisg ac sy'n tarddu o Frasil neu a draddodir oddi yno(**16**);".

Diwygio Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2003

5. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2003(**17**) yn lle'r diffiniad o "Penderfyniad y Comisiwn" rhodder y diffiniad canlynol —

> "ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 97/830/EC sy'n diddymu Penderfyniad y Comisiwn 97/613/EC ac sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio cnau pistasio a chynhyrchion penodol sy'n deillio o gnau pistasio sy'n tarddu o Iran neu a draddodir oddi yno(**18**) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 1998/400/EC(**19**)), Penderfyniad y Comisiwn 2000/238/EC(**20**), Penderfyniad y Comisiwn 2003/551/EC(**21**)) a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/429/EC sy'n diwygio Penderfyniadau 97/830/ EC, 2000/49/EC, 2002/79/EC a 2002/80/EC o ran yr unig bwyntiau mynediad y caniateir mewnforio drwyddynt i'r Gymuned y cynhyrchion dan sylw(**22**);".

(**9**) O.S. 2002/2296 (Cy.225), a ddiwygiwyd gan O.S. 2003/2292 (Cy.228).
(**10**) OJ Rhif L34, 5.2.2002, t.26.
(**11**) OJ Rhif L229, 27.8.2002, t.37.
(**12**) OJ Rhif L187, 26.7.2003, t.47.
(**13**) OJ No. L154, 30.4.2004, t.20.
(**14**) O.S. 2003/2254 (Cy.224).
(**15**) OJ Rhif L168, 5.7.2003, t.33.
(**16**) OJ Rhif L154, 30.4.2004, t.14.
(**17**) O.S. 2003/2288 (Cy.227).
(**18**) OJ Rhif L343, 13.12.1997, t.30.
(**19**) OJ Rhif L176, 20.6.1998, t.37.
(**20**) OJ Rhif L75, 24.3.2000, t.59.
(**21**) OJ Rhif L187, 26.7.2003, t.43.
(**22**) OJ Rhif L154, 30.4.2004, t.20.